## Trosolwg

### Beth yw'r broblem dan sylw? Pam y mae angen i'r llywodraeth ymyrryd?

Cofnodwyd dros 36,000 o achosion o dipio anghyfreithlon yng Nghymru yn ystod 2015/16 ac fe gostiodd y gwaith clirio mwy na £2.1 miliwn i drethdalwyr Cymru. Roedd yr achosion hyn yn amrywio o ran eu maint, o gwpwl o fagiau bin llawn sbwriel i lwyth lori fawr o wastraff adeiladu a dymchwel. Mae tipio anghyfreithlon yn broblem fawr i gymunedau lleol, yn enwedig yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad; mae hefyd yn beryglus i'r amgylchedd ac, ar brydiau, yn achosi llifogydd lleol.

Mae Awdurdodau Lleol wedi nodi bod costau sylweddol yn gysylltiedig ag ymchwilio i achos o dipio anghyfreithlon, erlyn a chlirio a gwaredu'r deunydd yn y pen draw. Heb fynd i'r afael â hyn, gallai unigolion gredu nad yw'n debygol iawn y bydd camau gorfodi yn cael eu cymryd, a gallai hyn fod yn gymhelliant ar gyfer tipio anghyfreithlon.

### Beth yw amcanion y polisi a'r effeithiau a fwriedir?

Ar hyn o bryd, yr unig ddewisiadau sydd ar gael ar gyfer mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yw erlyn mewn ymgais i sicrhau euogfarn droseddol, neu i swyddogion gorfodi gyflwyno rhybudd. Fodd bynnag, mae ymatebion gan Swyddogion Gorfodi Awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddau ymarfer ymgynghori[1],[2] wedi dangos bod rhai troseddau tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan yn aml o'r math nad yw rhybudd syml nac erlyniad yn briodol ar eu cyfer. I ymdrin â hyn, mae cyrff rheoleiddio wedi dadlau dros gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig, gan awgrymu y byddai hyn yn cynnig dull gorfodi arall ar gyfer achosion lle nad yw o bosibl yn briodol i fwrw ymlaen ag achos erlyniad ffurfiol drwy'r llysoedd. Fodd bynnag, erlyniad fyddai'r gosb yn y pen draw mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio â rhybudd.

[1] Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Strategaeth Tipio Anghyfreithlon: http://gov.wales/betaconsultations/environmentandcountryside/draft-fly-tipping-strategy/?skip=1&lang=cy

[2] Ymgynghoriad ar y cyd gan Defra a Llywodraeth Cymru ar bwerau gorfodi uwch a chamau eraill i drechu troseddau gwastraff a pherfformiad gwael sydd wedi ymwreiddio yn y diwydiant rheoli gwastraff: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/466879/waste-crime-consult-sum-resp.pdf

**Pa opsiynau polisi sydd wedi'u hystyried, gan gynnwys unrhyw ddewisiadau eraill yn hytrach na rheoleiddio? A wnewch chi gyfiawnhau'r opsiwn a ffefrir (ceir rhagor o fanylion yn y Sylfaen Dystiolaeth)**

**Opsiwn A:** Gwneud dim. Ni fyddai Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn cael ei diwygio a byddai'n rhaid i awdurdodau gorfodi ddefnyddio pwerau presennol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ac erlyn troseddwyr yn y llysoedd.

**Opsiwn B:** Cyflwyno is-ddeddfwriaeth i ddiwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol i gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig ar gyfer achosion o dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan. Nodir elfennau manwl Opsiwn 1 ar dudalennau 4 a 5 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

**Opsiwn B** yw'r dull yr ydym yn ei ffafrio gan y bydd yn cynnig ymateb mwy effeithlon a chymesur i Awdurdodau Lleol wrth ymdrin â thipio anghyfreithlon ar raddfa fechan, a fydd yn ddull ataliol ychwanegol, a gallai hynny arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon.

**Asesiad cychwynnol o'r effaith ar fusnes**

Ni fydd y Rheoliadau arfaethedig hyn yn gorfodi unrhyw gostau uniongyrchol ychwanegol ar fusnesau nac unigolion sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth gwastraff. Bydd y rhan o'r diwydiant sy'n cydymffurfio, sef y mwyafrif helaeth o weithredwyr, yn croesawu camau i fynd i'r afael â chynhyrchwyr gwastraff nad ydynt yn cydymffurfio, gweithredwyr a throseddwyr gwastraff, a gallai fod rhai manteision anuniongyrchol o ganlyniad i roi mwy o chwarae teg i fusnesau cyfreithlon.

**Tystiolaeth ategol**

### 1. Mater y polisi a'r rhesymeg dros ymyriad y Llywodraeth

Yn 2015/16, adroddodd Awdurdodau Lleol dros 36,000 o achosion o dipio anghyfreithlon yng Nghymru, ac fe gostiodd dros £2.1 miliwn i drethdalwyr Cymru[3]. Roedd tua 50% o'r holl achosion yn llwyth cist car neu lai (h.y. llai nag un metr ciwbig o wastraff). Mae Awdurdodau Lleol wedi nodi bod achosion o dipio anghyfreithlon o'r maint hwn yn costio £27.18 ar gyfartaledd i'w clirio. Nid yw union raddfa'r broblem ar dir preifat yn hysbys.

[3] Ystadegau tipio anghyfreithlon ar gyfer Cymru: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Fly-tipping

Mae'r gost i Awdurdodau Lleol o ymchwilio, erlyn a chlirio a gwaredu'r gwastraff a gaiff ei dipio'n anghyfreithlon yn parhau i fod sylweddol. Mae Awdurdodau lleol wedi nodi bod unrhyw ddirwyon a gyflwynir o ganlyniad i erlyniad llwyddiannus yn cael eu talu i'r Llys ac mae'n rhaid i'r awdurdodau sy'n erlyn ceisio adennill eu costau drwy broses ar wahân. I lawer o Awdurdodau Lleol, mae'r cais hwn yn aml yn arwain at ddyfarniad ariannol llai o lawer na'r hyn a gostiodd iddynt i ymchwilio ac erlyn.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Strategaeth Tipio Anghyfreithlon (2012)

Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Strategaeth Tipio Anghyfreithlon yn 2012 yn dangos bod cefnogaeth gref ymhlith y rhanddeiliaid i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai mabwysiadu'r dull hwn yn caniatáu i Awdurdodau Lleol ymdrin mewn ffordd fwy effeithiol a chymesur â'r nifer mawr o droseddau graddfa fechan ac y byddai'n helpu i leihau'r baich ar lysoedd ynadon lleol. Awgrymwyd hefyd y gallai HCB fod yn rhwystr effeithiol a hyd yn oed annog pobl i newid eu hymddygiad.

Un o ganlyniadau allweddol Strategaeth Tipio Anghyfreithlon Llywodraeth Cymru "*Cymru Ddi-dipio*", a gyhoeddwyd yn 2014[4] oedd sicrhau bod unrhyw un sy'n tipio'n anghyfreithlon yn cael ei ddal a'i gosbi'n briodol. I fodloni'r nod hwn, gwnaethpwyd ymrwymiad i ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig, neu ddulliau gorfodi eraill, ar gyfer cyfryw achosion o dipio anghyfreithlon.

Ymgynghoriad a Chais am Dystiolaeth ar Drosedd Gwastraff gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ar y cyd â Llywodraeth Cymru (2015)

Yn 2015, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad a chais am dystiolaeth ar y cyd â Defra i geisio barn am amrywiaeth o gamau sy'n berthnasol i drosedd gwastraff, gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig am dipio anghyfreithlon. Eto, roedd y mwyafrif (93%) o ymatebwyr yn cefnogi mabwysiadu'r dull hwn, gan nodi y byddai'n ddull gorfodi ychwanegol gwerthfawr ac y byddai'n cynnig dull cymharol syml, cyflym a rhad o ymdrin â throseddwyr. Roedd tynnu'r baich ariannol a'r baich adnoddau oddi ar system y llysoedd a swyddogion gorfodi yn rhan fawr o'r rhesymeg dros y gefnogaeth hon.

[4] Cymru Ddi-dipio – Ein strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/sites/default/files/consultation-documents/140603draft-fly-tipping-strategy-cy.pdf

## 2. Amcanion y polisi a'r effeithiau a fwriedir

Mae tipio anghyfreithlon yn broblem sylweddol i gymunedau lleol ac mae'n risg i'r gymuned, sy'n esgor ar gostau clirio sylweddol i Awdurdodau Lleol a thirfeddianwyr preifat. Er hyn, mae maint a graddfa tipio anghyfreithlon yn amrywio ac yn unol â hynny rydym o'r farn bod angen amrywiaeth o ymatebion posibl sy'n gymesur â'r drosedd.

Mae Awdurdodau Lleol wedi nodi bod y gost o ymchwilio i achos o dipio anghyfreithlon, erlyn a chlirio a gwaredu'r deunydd yn sylweddol. Casglwyd tystiolaeth gan Gyngor Sir Swydd Buckingham ar ran Grŵp Atal Tipio Anghyfreithlon Cenedlaethol y DU. Roedd tystiolaeth gan 29 o Awdurdodau Lleol (gan gynnwys tri o Gymru), yn awgrymu bod y gost gyfartalog o ymchwilio, erlyn a chlirio a gwaredu'r gwastraff a gafodd ei dipio'n anghyfreithlon yn £655.14; a'r costau cyfartalog a ddyfarnwyd i awdurdodau lleol oedd £404.60. Golyga hyn nad oedd y 29 o Awdurdodau Lleol a ymatebodd yn adennill ond 60% o'r costau ar gyfartaledd, wrth erlyn achos o dipio'n anghyfreithlon.

Mae derbyn swm sy'n llai o lawer na chost erlyniadau yn gallu atal Awdurdodau Lleol rhag bwrw ymlaen ag erlyniadau am dipio anghyfreithlon. Mae ffigyrau a gyflwynwyd gan Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn 2015/16 yn dangos yr ymchwiliwyd i 18,139 o achosion o dipio anghyfreithlon, ond dim ond 104 o erlyniadau llwyddiannus a fu (allan o gyfanswm o 105) yn erbyn pobl sy'n tipio'n anghyfreithlon; mae hyn yn cynrychioli dim ond 0.3% o'r holl ddigwyddiadau a adroddwyd yn ystod y cyfnod hwnnw[5].

Mae'r gost i Awdurdodau Lleol o ymchwilio, erlyn a chlirio a gwaredu deunydd a gaiff ei dipio'n anghyfreithlon yn parhau i fod yn sylweddol. Mae Awdurdodau Lleol wedi nodi bod unrhyw ddirwyon a gyflwynir o ganlyniad i erlyniad llwyddiannus yn cael eu talu i'r Llys ac mae'n rhaid i'r awdurdodau sy'n erlyn ceisio adennill eu costau drwy broses ar wahân. Bydd cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig yn ymateb cymesur i ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan a bydd yn ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau Awdurdod Lleol.

Rydym yn rhagweld y bydd cyflwyno a defnyddio Hysbysiad Cosb Benodedig newydd ar gyfer tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan hefyd yn gweithredu fel modd o atal troseddwyr posibl, a gallai gyfrannu at ostyngiad yn nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan (nid yw'r effaith ataliol bosibl wedi ei meintioli).

Ni fydd yr Hysbysiad Cosb Benodedig newydd yn gosb briodol i weithredwyr yn y diwydiant rheoli gwastraff, amldroseddwyr neu'r rhai hynny sy'n gyfrifol am dipio

[5] Mae data ar gyfer erlyniadau 2014/15 wedi eu defnyddio yn rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn gan fod y data ar gyfer 2015/16 yn anghyflawn.

anghyfreithlon ar raddfa fawr neu dipio gwastraff peryglus yn anghyfreithlon. Bydd achosion o'r fath yn parhau i gael eu herlyn yn y Llysoedd.

## 3. Opsiynau polisi a ystyriwyd, gan gynnwys dewisiadau eraill yn hytrach na rheoleiddio

**Opsiwn A**: Gwneud dim. Ni fyddai Deddf 1990 yn cael ei diwygio a byddai'n rhaid i awdurdodau gorfodi ddefnyddio pwerau presennol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ac erlyn troseddwyr yn y llysoedd.

**Opsiwn B**: Cyflwyno is-ddeddfwriaeth i ddiwygio Deddf 1990 i alluogi awdurdodau lleol i gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig ar gyfer tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan. **(Y dewis a ffefrir)**

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae erlyn trosedd tipio anghyfreithlon yn broses ddrud. Byddai cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig mewn ymateb i achosion o dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan yn ddefnydd effeithiol o adnoddau Awdurdodau Lleol. Bydd yn caniatáu i awdurdodau fynd i'r afael â throseddwyr heb yr angen i'w erlyn yn y llys. Ar ôl ei defnyddio, gallai weithredu hefyd fel modd o atal tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan, gan y bydd Awdurdodau Lleol yn fwy tebygol o gymryd camau gorfodi, a gallai hyn arwain at leihad yn nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon.

Bydd y cynnig yn cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig rhagosodedig newydd o £200, sydd gyfwerth â swm yr Hysbysiad Cosb Benodedig am dipio'n anghyfreithlon yn yr Alban a Lloegr. Bydd hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i Awdurdodau Lleol ddewis dirwy arall o ystod ehangach (£150 i £400), gan roi sylw i'r hyn y maent yn ei ystyried yn briodol o ran parodrwydd pobl yn eu hardal i dalu a lefelau'r dirwyon mewn Llysoedd Ynadon lleol. Rydym ni o'r farn ei bod yn debygol y bydd pennu cosbau penodedig yn rhy uchel ar gyfer yr amodau lleol yn wrthgynhyrchiol, gan arwain at lawer o achosion o beidio â thalu, ac yn yr un modd cosbau sy'n uwch na'r ddirwy debygol a orchmynnir gan y Llys Ynadon mewn achos o beidio â thalu'r gosb (mewn achos o'r fath, cychwynnir erlyniad o'r drosedd wreiddiol).

Bydd y Rheoliadau arfaethedig yn pennu y bydd yn ofynnol i Hysbysiadau Cosb Benodedig gael eu talu o fewn 14 diwrnod. Yn yr un modd â chynlluniau hysbysiadau cosb benodedig eraill, fel sbwriel, rydym ni o'r farn y dylid rhoi gostyngiad am dalu'n gynnar, hynny yw o fewn 10 diwrnod o dderbyn yr Hysbysiad Cosb Benodedig. Dylai hyn annog pobl i dalu'n gynnar ac osgoi'r angen am erlyniad drud o'r drosedd wreiddiol mewn achos o beidio â thalu'r gosb.

Mae profiad o Hysbysiadau Cosb Benodedig amgylcheddol eraill (h.y. methu â darparu nodyn trosglwyddo gwastraff; troseddau cynwysyddion gwastraff domestig a masnachol; gollwng sbwriel ac ati) y darperir ar eu cyfer yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 wedi dangos bod cynnig gostyngiadau yn annog cyfraddau talu gwell. Dylai hefyd sicrhau'r cyhoedd bod yr Hysbysiad Cosb Benodedig newydd yn ddull gorfodi yn hytrach nag yn ymarfer i godi arian.

Bydd y cynnig yn pennu isafswm cosb am ad-dalu'n gynnar o ddim llai na £120, sy'n gyfwerth â Hysbysiadau Cosb Benodedig amgylcheddol eraill yn Neddf 1990, ond bydd yn rhoi'r hyblygrwydd i Awdurdodau Lleol ddiffinio lefel ad-dalu cynnar sy'n gyfartal i hwn neu'n uwch na hwn. Dylai hyn annog pobl i dalu'n gynnar ac osgoi'r angen am erlyniad drud o'r drosedd wreiddiol os na chaiff y gosb ei thalu. Bydd defnyddio pwerau gorfodi a chyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig i droseddwyr yn esgor ar gostau i Awdurdodau Lleol. Yn yr un modd â Hysbysiadau Cosb Benodedig amgylcheddol eraill yn Neddf 1990, bydd Awdurdodau Lleol yn cael cadw'r arian a dderbynnir. Bydd yr arian hwn a dderbynnir yn cyfrannu at y costau gorfodi a'r costau o glirio'r gwastraff a gaiff ei dipio'n anghyfreithlon.

## 4. Dadansoddiad Cost a Budd

**Opsiwn A**: Gwneud dim. Ni fyddai Deddf 1990 yn cael ei diwygio a byddai'n rhaid i awdurdodau gorfodi ddefnyddio pwerau presennol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ac erlyn troseddwyr yn y llysoedd.

**Opsiwn B**: Cyflwyno is-ddeddfwriaeth i ddiwygio Deddf 1990 i alluogi awdurdodau lleol i gyflwyno hysbysiad cosb benodedig ar gyfer tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan. **(Yr opsiwn a ffefrir)**

### Costau i fusnesau

Ni fydd busnesau sy'n cynnal eu gweithgareddau gwastraff mewn ffordd gyfreithlon yn profi unrhyw gostau o ganlyniad i'r cynigion hyn. Bydd busnesau sy'n cynnal eu gweithgareddau gwastraff mewn ffordd anghyfreithlon (yn yr achos hwn, tipio gwastraff yn anghyfreithlon) yn profi costau o ganlyniad i'r cynigion hyn, er enghraifft trwy ganfod llwybrau gwaredu cyfreithlon neu o ganlyniad uniongyrchol i gael Hysbysiad Cosb Benodedig. Nid yw'n briodol i gynnwys costau i fusnesau sy'n cynnal gweithgareddau gwastraff mewn ffordd anghyfreithlon ac nid ydym wedi eu cynnwys yn ein casgliad. Mae'r cynnig yn darparu buddion anuniongyrchol o ganlyniad i roi mwy o chwarae teg i fusnesau sy'n gweithredu'n unol â'r gyfraith.

### Costau i awdurdodau gorfodi

Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am ymchwilio i achosion o ollwng sbwriel a chlirio gwastraff neu o achosion o dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan ar dir cyhoeddus.

Bydd y cynnig hwn yn cyflwyno pwerau newydd a fydd yn galluogi swyddogion awdurdodedig Awdurdodau Lleol i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig am droseddau tipio anghyfreithlon. Nid yw'r cynigion yn rhoi rhwymedigaeth ar Awdurdodau Lleol i arfer y pwerau hyn i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig nac i erlyn y drosedd wreiddiol os nad yw'r gosb yn cael ei thalu. Hon yw'r sefyllfa o dan y ddeddfwriaeth bresennol, gan nad oes unrhyw rwymedigaeth i dybio y bydd y pwerau sydd ar gael i Awdurdodau Lleol yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

Bydd rhai costau sefydlu bach i Awdurdodau Lleol sy'n dewis defnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar raddfa fechan ar gyfer hyfforddi staff a datblygu ffurflen addas ar gyfer yr hysbysiad gorfodi (gweler atodiad 1 i gael rhagor o fanylion). Ond gan fod Awdurdodau Lleol yn gallu cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig eisoes am amrywiaeth o droseddau yn Rhan 2 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, rhagwelir y bydd yr Awdurdodau Lleol hyn sy'n defnyddio'r pwerau hyn yn llwyddo i wneud hynny gan ddefnyddio eu hadnoddau presennol.

Mae Awdurdodau Lleol wedi nodi bod cost gyfartalog ymchwilio i achos o dipio anghyfreithlon, erlyn a chlirio unrhyw ddeunydd sydd wedi ei dipio yn £813.48. Os yw erlyniad yn llwyddiannus, gallai'r llys ddyfarnu costau i'r Awdurdod Lleol (£404.60 ar gyfartaledd[6]) gan eu galluogi i adennill peth o'r adnoddau hyn.

Os yw Awdurdodau Lleol yn dewis cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig i unigolyn yn hytrach na'i erlyn mewn Llys Ynadon, ni fyddant yn gallu ceisio unrhyw ad-daliad o'r costau y maent yn eu talu o wneud hyn, ond byddant yn gallu derbyn arian y ddirwy. Os eir ati i orfodi mewn ffordd gymesur, ni fydd yr Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu defnyddio ac eithrio fel ymateb i achosion o dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan pan fo eu defnyddio yn cynnig gostyngiad yn y colledion a geir drwy erlyn a gorfodi.

## Buddion

Diben cyffredinol y pwerau ychwanegol hyn yw cyflwyno dull gorfodi newydd i Awdurdodau Lleol a fydd yn eu galluogi i fynd i'r afael ag achosion o dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan mewn modd cymesur. Bydd hyn yn lleihau costau i awdurdodau gorfodi wrth iddynt fynd i'r afael â throseddwyr, yn symleiddio'r broses orfodi, ac fe fydd croeso i hyn gan gymunedau lleol a'r rhan o'r diwydiant gwastraff sy'n gweithredu'n unol â'r gyfraith.

---

[6] Ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd Cymru a Lloegr, yn deillio o arolwg a gynhaliwyd ar ran y Grŵp Cenedlaethol dros Atal Tipio Anghyfreithlon

Byddai unrhyw ostyngiad dilynol mewn achosion o dipio'n anghyfreithlon a allai ddigwydd o ganlyniad i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig yn gwella ansawdd yr amgylchedd lleol ac yn creu gwelliannau cysylltiedig yng nghanfyddiad y cyhoedd, iechyd, balchder bro a buddsoddiad mewnol. Byddai lleihau tipio anghyfreithlon hefyd o fudd i gynefinoedd bywyd gwyllt a fyddai fel arall yn cael eu heffeithio'n andwyol gan wastraff anghyfreithlon. Mae buddion o'r math hyn yn arbennig o anodd eu meintioli a bydd yr effaith ar yr economi, y gymdeithas a'r amgylchedd yn dibynnu ar ba mor gadarn y caiff y trefniadau eu gorfodi yn y dyfodol.

**Buddion i fusnesau**

Dylai'r cynigion hyn weithredu fel modd o atal pobl sy'n tipio'n anghyfreithlon a helpu i wneud y sefyllfa'n deg i fusnesau sy'n ymdrin â gwastraff. Dylai'r modd hwn o atal cynnwys budd anuniongyrchol hefyd gan y bydd angen i unigolion a busnesau ddod o hyd i fan gwaredu cyfreithlon ar gyfer eu gwastraff.

Bydd dod â mwy o bobl i'r gymuned a reoleiddir, a chosbi'r bobl hynny nad ydynt yn cydymffurfio, yn cyfrannu at wneud y sefyllfa yn fwy teg. Mae hyn yn gyson â'r galwadau gan y diwydiant gwastraff.

**Buddion i awdurdodau gorfodi**

Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am glirio gwastraff tipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus. Bydd y cynigion yn gwella'r drefn gorfodi bresennol; yn gwneud gorfodi tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan yn opsiwn gorfodi mwy dichonadwy; ac yn caniatáu i Awdurdodau Lleol adennill rhai o'r costau gorfodi a'r costau clirio heb orfod mynd ag achos i'r llys.

Bydd y diwygiad arfaethedig yn caniatáu i Awdurdodau Lleol gadw'r arian a dderbynnir o Hysbysiadau Cosb Benodedig. Byddant yn gallu defnyddio'r arian at ddibenion eu swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, gan gynnwys gorfodi'r troseddau. Awdurdodau Lleol fydd yn neilltuo'r arian a dderbynnir o fewn y gyllideb honno. Gan ddibynnu ar amgylchiadau lleol, bydd yr arian hwn yn cyfrannu at dalu'r costau llawn o weithredu'r gwasanaeth a chlirio gwastraff o achos o dipio anghyfreithlon. Bydd cymunedau lleol a'r amgylchedd yn elwa ar lai o anharddwch o ganlyniad i ddefnyddio'r arian hwn i dalu am y swyddogaethau sydd ynghlwm â mynd i'r afael â gwastraff ar dir. Fodd bynnag, at

ddibenion symlrwydd, rydym yn parhau i gyfrifo y bydd y cynnig hwn o fudd o ran creu arbedion i Awdurdod Lleol.

Bydd cyflwyno'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn ddull ataliol ychwanegol i bobl sy'n ystyried tipio'n anghyfreithlon, a allai arwain at lai o achosion o dipio anghyfreithlon. Gallai hyn olygu llai o wastraff yn yr amgylchedd lleol a gwell amwynder. Gallai hyn hefyd olygu gostyngiad yn y costau clirio cyffredinol i awdurdodau gorfodi tipio anghyfreithlon. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar y graddau y caiff y gyfraith ei gorfodi.

Mae'n debygol y bydd cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig yn arwain at ostyngiad mewn erlyniadau am dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan yn y Llysoedd Ynadon. Bydd hyn yn arbed adnoddau awdurdodau lleol a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Gan ddefnyddio'r costau erlyn sy'n deillio o WasteDataFlow rydym yn amcangyfrif y bydd Awdurdodau Lleol sy'n dewis mynd i'r afael ag achos o dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan gan ddefnyddio Hysbysiad Cosb Benodedig yn hytrach na'i erlyn mewn llys yn arbed rhwng £220 a £1398 fesul achos (gweler yr atodiad i gael rhagor o fanylion).

Ar yr un pryd, rydym yn disgwyl y bydd y cynnig yn arwain at erlyn nifer bach o achosion newydd am y drosedd wreiddiol yn y Llysoedd Ynadon o ganlyniad i beidio â thalu'r gosb, ac mae'n bosibl y ceir nifer bach o droseddau a erlynir o dan adran 33ZA(9) newydd Deddf 1990 (am roi manylion anwir). Yn gyffredinol, rydym o'r farn y dylid gweld gostyngiad net yn llwyth achosion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Rydym yn cyfrifo y bydd yr Awdurdodau Lleol hynny sy'n penderfynu cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig yn gwneud arbedion yn y costau gorfodi a chlirio cyffredinol.

**Cymharu costau a buddion i fusnesau**

Nid oes unrhyw gostau i fusnesau sy'n cynnal eu busnes gwastraff mewn ffordd gyfreithlon ac nid ydym yn cynnwys costau i fusnesau nad ydynt yn cydymffurfio â'r gyfraith ar hyn o bryd.

Nid oes unrhyw fuddion uniongyrchol i fusnesau sy'n gweithredu'n unol â'r gyfraith. Mae cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig yn opsiwn gorfodi arall i awdurdodau lleol, a allai weithredu fel dull ataliol sy'n golygu bod budd anuniongyrchol i fusnesau sy'n gweithredu'n unol â'r gyfraith o ganlyniad i fwy o chwarae teg. Yn hynny o beth,

rydym o’r farn bod budd net niwtral i fusnesau o ganlyniad i fabwysiadu’r dewis a ffefrir.

Mae maint y budd hwn i fusnesau yn cynyddu wrth i awdurdodau gorfodi wneud rhagor o ddefnydd o’r pwerau ac wrth i’r effaith o atal tipio anghyfreithlon gynyddu.

**Busnesau bach a microfusnesau**

Ni fydd y cynigion yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cael unrhyw effeithiau andwyol, gan gynnwys costau, ar fusnesau bach a microfusnesau sy’n cydymffurfio gan eu bod wedi’u hanelu at y busnesau a’r unigolion hynny nad ydynt yn cydymffurfio â rheoliadau gwastraff. Dylai’r Rheoliadau arfaethedig helpu busnesau bach a microfusnesau i fod yn fwy cystadleuol gan y byddant yn helpu i greu sefyllfa fwy teg yn y diwydiant gwastraff.

**<u>Atodiad A: Costau Dangosol</u>**

<u>Arbedion Cost Posibl o weinyddu Hysbysiadau Cosb Benodedig o'i gymharu â Chamau Llys (yn seiliedig ar ddata 2014/15):</u>

At ddibenion asesu'r arbedion posibl i Awdurdodau Lleol trwy fabwysiadu dull Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer achosion o dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan, defnyddiwyd data gorfodi ac erlyn o'r achosion o dipio anghyfreithlon a'r camau a adroddwyd gan Awdurdodau Lleol yn 2014-15.

Nododd Awdurdodau Lleol bod un achos yn cynnwys costau camau ymchwilio o £33 a £27.18 am glirio tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan (un bag du i gist car neu lai). Rydym wedi tybio bod costau ychwanegol o £33 fesul cam gorfodi i orfodi hysbysiadau cosb benodedig (sy'n gyson â chost yr Hysbysiad Cosb Benodedig a nodwyd yn y set ddata).

At ddibenion cymharu, cyfrifwyd y costau erlyn cyfartalog fesul Awdurdod Lleol, a chan dybio y byddai chostau erlyn cymharol is yn gysylltiedig â thipio anghyfreithlon ar raddfa fechan, cyfrifwyd symiau cyfartalog ar gyfer dau chwarter cyntaf y pwyntiau data er mwyn darparu amcangyfrifon uchaf ac isaf y costau erlyn ar gyfer tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan.

**Costau mynd ag achos i'r llys**

| | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** |
|---|---|---|---|
| Ymchwilio | £33.00 | £33.00 | £33.00 |
| Costau erlyn | £253.90 | £753.30 | £1431.22 |
| Costau clirio | £27.18 | £27.18 | £27.18 |
| **Cyfanswm y costau** | **£314.08** | **£813.48** | **£1491.40** |

| **Costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno hysbysiad cosb benodedig** | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** |
|---|---|---|---|
| Ymchwilio | £33.00 | £33.00 | £33.00 |
| Costau gorfodi Hysbysiad Cosb Benodedig | £33.00 | £33.00 | £33.00 |
| Glanhau achos ar raddfa fechan | £27.18 | £27.18 | £27.18 |
| **Cyfanswm y costau** | **£93.18** | **£93.18** | **£93.18** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Arbedion cost posibl** | **£220.90** | **£720.30** | **£1398.22** |

**Baich Gweinyddol wrth Ymgyfarwyddo**

Rydym yn tybio y bydd pob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn profi cost ymgyfarwyddo untro er mwyn ymgyfarwyddo â'r newidiadau arfaethedig (cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig am achos o dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan). Rydym wedi defnyddio data o set ddata "Work Region Occupation" y Swyddfa Ystadegau Gwladol i gyfrifo cyfraddau cyflogau yng Nghymru. Mae hwn wedi ei chwyddo gan 30% i adlewyrchu costau llafur nad ydynt yn gyflogau. Gan ddefnyddio tybiaeth ganolog o 90 o funudau fesul awdurdod lleol, gallai'r newidiadau arfaethedig gynnwys cost drosiannol untro o £720.06.

| **Amser (munudau)** | **60** | **90** | **120** |
|---|---|---|---|
| Swydd | Swyddi gweinyddol llywodraeth leol | | |
| Cyflog | 11.19 | | |
| Wedi'i chwyddo ar gyfer costau nad ydynt yn gyflogau | 21.82 | | |
| Nifer yr ALlau yng Nghymru | 22 | | |
| Cost (£) | 480.04 | 720.06 | 960.08 |